Llwynog bach y wlad

Sefyll dros yr hyn sy'n bwysig / Ufudd-dod / Dewrder

Un ben bore cerddodd y llwynog bach i ben y bryncyn uwchlaw'r ffau. Yn y pellter gwelai adeiladau mawr a mwg yn codi o simneai anferth. Dacw'r ddinas roedd y moch daear wedi sôn amdanyn nhw. Yn ôl y moch daear roedd y ddinas yn le diddorol iawn.

"Mi fuaswn i'n hoffi mynd i weld y ddinas," meddai'r llwynog wrtho'i hun. "Mi af i ofyn i nhad a mam gai i fynd i fyw i'r ddinas."

Doedd ei rieni ddim yn hapus iawn ond meddai'i fam. "Os wyt ti eisiau mynd i ffwrdd i'r ddinas, mi fydd dy dad a minnau yn ddigon bodlon i ti fynd ond cofia di mae'r ddinas yn le peryglus dros ben."

Cyn i'w fam orffen siarad roedd y llwynog bach ar ei ffordd o'r ffau. Roedd yn benderfynol o fynd i'r ddinas fawr.

Cychwynnodd yn araf i lawr y bryncyn tua'r rheilffordd. Roedd yn gwybod yn iawn ym mha gyfeiriad oedd y ddinas. Trodd ar y dde a charlamodd yn ei flaen. Yn sydyn daeth sŵn trên i'w glustiau. Gwell fyddai swatio yn y mieri ar ochr y cledrau. Ymhen dim roedd y trên wedi diflannu yn y pellter. I ffwrdd ag ef nerth ei draed tua'r ddinas. Ar ôl bron i awr o deithio gwelodd fod y rheilffordd yn arwain i adeilad mawr. Hon oedd yr orsaf. Mae'n amlwg ei fod wedi cyrraedd y ddinas.

Neidiodd dros y wal agosaf i gae wrth ymyl yr orsaf. Ond doedd hwn ddim yn gae mawr fel y caeau yn y wlad. Na, nid cae oedd hwn ond gardd. Roedd hi'n dechrau nosi.

Swatiodd yn y gwrych ar waelod yr ardd. "Wel dyma le swnllyd," meddyliodd. Sŵn y trenau'n gwibio heibio. Sŵn pobl a phlant yn siarad. Sŵn ceir a loriau yn chwyrlïo heibio'n brysur. Roedd hi mor wahanol yn y wlad. Ac roedd pob man yn olau, roedd goleuni ar y strydoedd ac yn y tai. Mor dywyll oedd hi yn y wlad.

Yn sydyn, gwelai lwynog tebyg iddo yn neidio dros y gwrych.

Swatiodd yntau'n dynnach yn y gwrych. Neidiodd y llwynog arall ar y bin sbwriel a'i droi drosodd. Dechreuodd fwyta'r sbarion oedd yn y bin sbwriel. Cododd yntau o'r gwrych ac ymuno â'r llwynog ond trodd hwnnw arno a cheisio'i frathu. Yna, ar ôl llowcio popeth oedd ar gael yn y bin neidiodd drosodd i'r ardd drws nesa. "Dydw i ddim yn hoffi byw yn y ddinas. Mae hi'n swnllyd, yn olau drwy'r nos ac mae llwynogod y ddinas yn angharedig iawn. Arhosodd yno am rai dyddiau ond yr un oedd yr hanes.

Penderfynodd ei throi hi'n ôl am y wlad. Neidiodd dros glawdd yr ardd, rhedodd ar hyd y rheilffordd ac i fyny'r bryncyn. Pwy oedd yn sefyll ar ben y bryncyn ond ei dad.

"Wyt ti wedi dod yn ôl? Doeddet ti ddim yn hoffi'r ddinas felly?"

"Nag oeddwn," meddai'r llwynog bach. "Mae well gen i fyw yn y wlad."

"Wel, mae croeso i ti efo dy fam a minnau bob amser. Yma mae dy gartref, cofia hynny."

Rhedodd y llwynog bach nerth ei draed i'r ffau. Ac yno y bu am rai dyddiau.

O Dduw, mi ydw i, o dro i dro, yn ymdrechu'n rhy galed. Helpa fi, ar brydiau i fod yn ddiddig efo mi fy hun. Amen.

✦ Oes yna wahaniaeth rhwng llwynogod y wlad a llwynogod y dref?

✦ Gofynnwch i'ch athro ddarllen rhan o Efengyl Luc i chi (Luc pennod 15)